Arolygiaeth Gofal Cymru
Care Inspectorate Wales

Adroddiad Arolygu ar gyfer

Cartref Gofal Plas Isaf

30-32 Llannerch Road West
Llandrillo-yn-Rhos
Bae Colwyn
LL28 4AS

This report is also available in English

Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg

Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad

28/11/2023

Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2023.
Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost i: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk
Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.

Cartref Gofal Plas Isaf

Y math o ofal a ddarperir	Gwasanaeth Cartref Gofal Gofal Heb Nyrsio i Oedolion
Darparwr Cofrestredig	Elmtree Healthcare Limited
Lleoedd cofrestredig	32
Iaith y gwasanaeth	Y ddwy
Arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru	28 Chwefror 2022
Ydy'r gwasanaeth hwn yn hyrwyddo'r iaith Gymraeg a diwylliant Cymru?	Mae'r gwasanaeth hwn yn gweithio tuag at ddarparu 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg ac mae'n gwneud cryn ymdrech i hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg a diwylliant Cymru.

Crynodeb

Mae rheolwr y gwasanaeth wedi newid sawl gwaith ers yr arolygiad diwethaf. Roedd y rheolwr mwyaf newydd yn ei swydd am ryw chwe mis. Fodd bynnag, mae wedi gadael ei swydd ers hynny. Mae'r gwasanaeth hefyd newydd benodi dirprwy reolwr a rheolwr gofal. Mae'r tîm rheoli yn ymwybodol bod angen i'r gwasanaeth wella ac mae wedi cymryd rhan lawn yn yr arolygiad. Mae wedi dechrau rhoi newidiadau ar waith ond mae'n cydnabod y bydd y rhain yn cymryd amser i'w hymgorffori.

Mae'r staff gofal yn addasu i lawer o newidiadau ac nid yw hyn yn hawdd bob amser, ond gallant weld y manteision a ddaw yn sgil rhai o'r newidiadau hyn. Nid yw'r staff gofal wedi bod yn cael eu goruchwylio na'u hyfforddi'n rheolaidd a dyma un o'r materion y mae'r gwasanaeth yn gweithio i fynd i'r afael â nhw. Gwelsom fod y staff gofal yn ofalgar ac yn garedig. Fodd bynnag, gwelsom fod yna rai anghysondebau yn y gofal y mae pobl yn ei gael a bod hyn yn cael effaith ar bobl.

Gwnaethom gyhoeddi maes i'w wella yn yr arolygiad diwethaf gan nad oedd y rheolwr wedi cwblhau ei gymhwyster lefel 5 ac nid oedd wedi cofrestru â Gofal Cymdeithasol Cymru. Nid oes rheolwr mewn swydd ar hyn o bryd.

Llesiant

Mae'r bobl yn cael rhywfaint o ddewis o ran eu bywydau o ddydd i ddydd. Gwelsom y gallai pobl ddewis ble i eistedd, a threulio amser yn eu hystafelloedd os oeddent eisiau. Dywedodd y staff gofal wrthym y gall pobl godi pan fyddant eisiau gwneud hynny. Gall y bobl ddewis beth yr hoffent ei gael i frecwast ac ar y diwrnod y gwnaethom ymweld, gwelsom fod dau ddewis ar y fwydlen ar gyfer cinio, a dywedwyd wrthym y gallai dewisiadau eraill gael eu darparu. Dywedodd pawb y gwnaethom siarad â nhw gymaint yr oeddent yn hoffi'r bwyd. Gwelsom bobl yn cymryd rhan mewn gweithgaredd yn ystod ein hymweliad ac aeth y cydgysylltydd gweithgareddau ag un person allan i siopa. Dywedodd rhai pobl wrthym nad ydynt yn mynd allan ryw lawer ac yr hoffent gael mwy i'w cadw'n brysur. Nid oes gan y darparwr gar na bws mini a dywedodd y cydgysylltydd gweithgareddau wrthym yr hoffai fynd â phobl allan yn amlach gyda chymorth y staff gofal.

Mae'r staff gofal yn trin y bobl ag urddas a pharch. Gwelsom fod y staff gofal yn darparu gofal i bobl mewn ffordd garedig ac amyneddgar. Yn ddiweddar, mae'r rheolwyr wedi annog staff gofal i eistedd a chael cinio gyda phobl i'w wneud yn ddigwyddiad mwy cymdeithasol. Fodd bynnag, y tu allan i hyn, gwelsom fod y staff gofal yn canolbwyntio ar dasgau, a gwelsom fod yr amser y mae'r staff gofal yn ei dreulio yn rhyngweithio gyda phobl yn gyfyngedig.

Caiff pobl eu cefnogi i gael ymwelwyr a gwelsom fod perthnasau yn ymweld â phobl yn ystod ein harolygiad. Dywedodd un person wrthym ei fod yn cael ymwelydd bob dydd a bod cadair ychwanegol wedi'i rhoi yn ei ystafell er mwyn iddynt ei defnyddio. Dywedodd y perthnasau y gwnaethom siarad â nhw fod croeso iddynt bob amser a bod y bobl yn cael gofal da. Dywedodd perthynas wrthym fod symud i'r cartref wedi cael effaith gadarnhaol iawn ar fywyd ei berthynas. Roedd yr holl bobl y gwnaethom siarad â nhw yn gadarnhaol am y gwasanaeth. Dywedodd un unigolyn wrthym ei fod yn “home from home”.

Ni ellir darparu gwasanaeth yn Gymraeg ar hyn o bryd. Ceir arwyddion dwyieithog yn y gwasanaeth a chaiff adroddiadau ansawdd y gofal eu cyfieithu i'r Gymraeg. Dywedodd y rheolwr wrthym eu bod yn bwriadu cyflwyno gair Cymraeg y dydd.

Nid yw'r bobl yn cael y gofal a’r cymorth cywir yn gyson. Gwelsom nad yw gofal bob amser yn cael ei ddarparu gan ddilyn cyngor y gweithwyr iechyd proffesiynol. Mae hyn yn cael effaith negyddol ar ganlyniadau personol rhai pobl.

Gofal a Chymorth

Nid yw cynlluniau personol pobl yn cofnodi eu holl anghenion gofal a chymorth yn gyson, a gwelsom nad ydynt yn cael eu diweddaru'n gywir bob amser pan fo'u hanghenion yn newid. Gwnaethom edrych ar bedwar cynllun gofal a gwelsom mai manylion cyfyngedig am y person oedd mewn tri ohonynt ac nad oeddent bob amser yn cynnwys eu canlyniadau personol. Prin yw'r dystiolaeth o ymgynghori â'r bobl a'r teuluoedd ar gyfer y cynllun personol. Fodd bynnag, gwelsom un cynllun personol a oedd wedi'i gwblhau gan y rheolwr diweddaraf. Gwelsom fod y cynllun personol hwn yn fwy trwyadl, gan gynnwys hanes manwl o gefndir, dymuniadau a theimladau'r person. Esboniodd y rheolwr ei fod yn ymwybodol o'r angen i wella cynlluniau personol a dyma fyddai/'n safonol ar gyfer pob cynllun personol wrth symud ymlaen. Yn ystod ein harolygiad, dywedodd ei fod yn bwriadu adolygu pob cynllun personol dros y misoedd nesaf. Mae'r rheolwr wedi gadael y gwasanaeth ers hynny.

Gwelsom fod staff gofal yn garedig ac yn ystyriol tuag at bobl, a chaiff clychau galw eu hateb yn amserol. Dywedodd un unigolyn fod y staff gofal yn gyfeillgar a bod hyn yn helpu os byddant yn teimlo'n anhapus. Gwelsom hefyd nad yw pobl yn cael gofal sy'n diwallu eu hanghenion yn gyson, ceir canlyniadau gwael i rai pobl. Gwelsom ddiffyg cysondeb rhwng yr hyn yr oedd staff gofal yn ei wybod am y bobl a'r anghenion a gofnodwyd ar y cynlluniau personol. Nid yw'r siartiau ail-leoli ar gyfer dau unigolyn yn cofnodi eu bod wedi cael eu hail-leoli ar gyfer gofal briwiau pwyso mor aml ag y dylent. Cefnogwyd ein canfyddiadau gan adborth gweithwyr proffesiynol a ddywedodd wrthym fod diffyg manylion yn y nodiadau gofal dyddiol. Disgrifiodd un gweithiwr proffesiynol fod y diweddariadau maent yn eu cael gan staff gofal yn *"vague"*.

Mae'r gwaith cynllunio a darparu gofal yn effeithio ar iechyd a llesiant y bobl, ac yn peri risg iddynt, ac felly rydym wedi cyhoeddi hysbysiad gweithredu â blaenoriaeth. Rhaid i'r darparwr weithredu ar unwaith i ymdrin â'r mater hwn. Byddwn yn adolygu hyn yn yr arolygiad nesaf.

Mae'r bobl yn cael eu hamddiffyn rhag y risg o haint. Gwelsom fod y cartref yn lân ac yn daclus drwyddo a cheir stoc dda o gyfarpar diogelu personol a gwelsom fod y staff yn eu defnyddio'n briodol.

Mae'r staff gofal yn rhoi meddyginiaeth yn ddiogel i'r bobl. Gwelsom fod gwasanaethau allanol yn gwneud arolygiadau o feddyginiaeth y gwasanaeth i sicrhau bod ganddo systemau diogel ar waith. Roedd arolygiad diweddaraf y fferyllfa'n dangos bod gwelliannau sylweddol wedi'u gwneud i'r ffordd y caiff meddyginiaeth ei storio a'i rhoi.

Yr Amgylchedd

Mae'r bobl yn byw mewn gwasanaeth sydd wedi'i gynnal a'i gadw'n dda ac sy'n gyfforddus. Mae ystafell weithgareddau ar gael sy'n gartrefol a gellir ei defnyddio hefyd fel ystafell dawel i ymlacio ynddi. Gall y bobl eistedd ar ddigonedd o gadeiriau cyfforddus mewn lolfa fawr. Gwelsom rai pobl yn dewis seddau gyda golygfa o'r ardd. Gwnaethant ddweud wrthym cymaint y maent yn hoffi eistedd yno. Mae rheolwyr y gwasanaeth yn ystyried sut i ddatblygu'r lolfa er mwyn ei gwneud yn fwy cartrefol a chreu mwy o ardaloedd bach i bobl gymdeithasu ynddynt. Ceir ardal fwyta fawr, ac mae cynlluniau i osod bar brecwast/ardal weini er mwyn i'r bobl allu dod i ddewis eu brecwast eu hunain. Ceir gardd gaeedig, hygyrch y mae gan y bobl ryddid i fynd iddi. Gall y bobl fod yn siŵr y caiff eu gwybodaeth bersonol ei chadw'n ddiogel, gan fod clo bysellbad ar ddrws y swyddfa lle y caiff gwybodaeth gyfrinachol ei chadw.

Mae gan y bobl fynediad i'r cyfarpar arbenigol sydd ei angen arnynt i'w helpu i gadw mor annibynnol â phosibl. Gwelsom fod canllawiau cydio mewn lliwiau llachar o gwmpas yr adeilad. Ceir arwyddion ar ffurf lluniau ar ddrysau ystafelloedd cymunedol a drysau ystafelloedd ymolchi sydd wedi'u paentio mewn lliwiau gwahanol i helpu'r bobl gyda dementia i lywio o amgylch y cartref.

Mae'r darparwr gwasanaeth yn sicrhau bod archwiliadau iechyd a diogelwch rheolaidd yn cael eu cynnal. Ceir system drwyadl i sicrhau y caiff y rhain eu cadw'n gyfredol. Gwelsom dystiolaeth o dystysgrifau diogelwch trydanol a nwy ac archwiliadau diogelwch tân rheolaidd.

Arweinyddiaeth a Rheolaeth

Nid oedd gan ddarparwr y gwasanaeth oruchwyliaeth effeithiol o'r gwasanaeth i sicrhau gofal a chymorth o ansawdd uchel i bobl. Mae'r rheolwr wedi newid sawl gwaith ers yr arolygiad diwethaf. Gwnaethom gyhoeddi maes i'w wella yn yr arolygiad diwethaf gan nad oedd y rheolwr wedi cwblhau ei gymhwyster lefel 5 ac nid oedd wedi cofrestru â Gofal Cymdeithasol Cymru. Er i reolwr gyda chymwysterau addas fod mewn swydd yn ystod ein harolygiad, mae wedi gadael ei swydd ers hynny. Mae hyn yn golygu nad oes rheolwr yn y gwasanaeth ar hyn o bryd. Er nad oes angen gweithredu ar unwaith, mae hwn yn faes i'w wella ac rydym yn disgwyl i'r darparwr weithredu.

Mae'r gwasanaeth yn dilyn arferion recriwtio diogel ac yn sicrhau bod yr holl staff yn cwblhau'r archwiliadau recriwtio priodol cyn dechrau cyflogaeth. Mae'r bobl yn cael gofal gan staff rheolaidd sy'n eu hadnabod yn dda y rhan fwyaf o'r amser. Gwelsom fod nifer yr aelodau o staff asiantaeth a ddefnyddir wedi gostwng yn sylweddol dros y misoedd diwethaf, gyda chynnydd yn nifer yr aelodau o staff cyflogedig.
Fodd bynnag, gwelsom fod diffyg goruchwyliaeth i'r staff. Dywedodd y rheolwr diweddaraf wrthym nad oedd cofnod fod goruchwyliaeth nac arfarniadau staff ar waith. Gwelsom fod y rheolwr diweddaraf wedi cwblhau rhai sesiynau goruchwylio ers iddo gael ei benodi ond nid yw wedi cael y cyfle i oruchwylio pob aelod o staff, na chwblhau sesiynau goruchwylio yn rheolaidd. Er bod cynllun i fynd i'r afael â hyn, mae hyn wedi parhau ers peth amser. Ni allai'r staff y gwnaethom siarad â nhw gofio'u sesiwn oruchwylio neu arfarniad blynyddol diwethaf. Nid yw'r staff gofal wedi cael hyfforddiant craidd digonol. Gwelsom nad oedd unrhyw staff wedi cael hyfforddiant mewn gofal briwiau pwyso neu ddementia. Ceir cofnodion anghyson o hyfforddiant staff ar gyfer meysydd craidd eraill. Mae cynllun ar gael i ymdrin â hyn. Mae hyfforddiant wedi'i drefnu i staff yn ddiweddar ac mae'r darparwr wedi penodi swyddog hyfforddi a datblygu a fydd yn helpu gyda hyn. Byddwn yn adolygu hyn yn yr arolygiad nesaf.

Mae'r Unigolyn Cyfrifol yn ymweld â'r gwasanaeth bob tri mis o leiaf i oruchwylio ansawdd y gofal a'r cymorth a ddarperir. Mae eu hadroddiadau o ymweliadau'n cynnwys tystiolaeth o siarad â'r bobl a'r staff ar bob ymweliad, archwilio'r safle ac adolygu unrhyw gwynion neu ddigwyddiadau. Mae'r Unigolyn Cyfrifol yn cwblhau adolygiadau o ansawdd y gofal bob chwe mis, ond nid yw'r wybodaeth yn y rhain yn gyson â'r ymweliadau chwarterol bob amser. Gwelsom hefyd fod eu hadroddiadau chwarterol wedi methu â chydnabod nad oedd staff wedi bod yn cael eu goruchwylio. O ganlyniad, ceir diffyg cefnogaeth i reolwyr er mwyn eu helpu i sicrhau bod pob aelod o'r staff yn cael eu goruchwylio'n rheolaidd. Mae'r rheoliadau'n nodi y dylai'r staff gael sesiynau goruchwylio o leiaf bob tri mis ac arfarniad blynyddol bob blwyddyn. Er nad oes angen gweithredu ar unwaith, mae hwn yn faes i'w wella, ac rydym yn disgwyl i'r darparwr weithredu.

Dywedodd yr unigolyn cyfrifol wrthym sut mae'n bwriadu buddsoddi yn y gwasanaeth. Gwelsom fod y gwasanaeth wedi cael matresi a gwelyau newydd yn ddiweddar. Mae'r

Unigolyn Cyfrifol yn cefnogi syniadau diweddaraf y rheolwr i wneud gwelliannau i'r adeilad a fydd yn ei wneud yn fwy cartrefol a chyfforddus i bobl.

Crynodeb o'r Achos o Ddiffyg Cydymffurfio	
Statws	**Ystyr pob un**
Newydd	Nodwyd yr achos hwn o ddiffyg cydymffurfio yn yr arolygiad hwn.
Adolygwyd	Adolygwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn ystod yr arolygiad nesaf.
Heb Gyflawni	Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni.
Cyflawnwyd	Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn a llwyddwyd i'w chyflawni.

Rydym yn ymateb i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan gaiff canlyniadau gwael i bobl, a/neu risg i lesiant pobl eu nodi drwy gyhoeddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Rhaid i'r darparwr gymryd camau ar unwaith i ymdrin â hyn a gwneud gwelliannau. Os bydd darparwyr yn methu â chymryd camau gweithredu â blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, gallwn uwchgyfeirio'r mater at Banel Gwella a Gorfodi.

Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth		
Rheoliad	Crynodeb	Statws
21	Nid yw rhai pobl yn cael gofal sy'n dilyn cyngor y gweithwyr meddygol proffesiynol. Sicrhau bod y staff gofal yn ymwybodol o anghenion gofal penodol i unigolion a'u bod wedi cael hyfforddiant priodol i ddarparu'r gofal angenrheidiol.	Newydd

Lle byddwn yn canfod achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond na chaiff unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ei nodi, byddwn yn tynnu sylw atynt fel Meysydd i'w Gwella.

Byddwn yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau i unioni'r achos a byddwn yn ei ystyried eto yn yr arolygiad nesaf. Lle bydd y darparwr wedi methu â gwneud y gwelliannau angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy gyhoeddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

Maes i'w Wella/Meysydd i'w Gwella		
Rheoliad	Crynodeb	Statws
66	Nid yw'r staff gofal yn cael sesiynau goruchwylio nac arfarniadau blynyddol. Sicrhau y gall rheolwyr ddarparu sesiynau goruchwylio bob tri mis ac arfarniad blynyddol i'r holl staff.	Newydd
67	Mae angen i'r Unigolyn Cyfrifol benodi rheolwr sydd wedi cofrestru gyda Gofal Cymdeithasol Cymru i reoli'r gwaith o ddarparu'r gwasanaeth o ddydd i ddydd.	Heb Gyflawni

A oedd yr adroddiad hwn yn ddefnyddiol?

Rydym am glywed eich barn a'ch profiadau o ddarllen ein hadroddiadau arolygu. Bydd hyn yn ein helpu i ddeall a yw ein hadroddiadau yn rhoi gwybodaeth glir a gwerthfawr i chi.

I rannu eich barn ar ein hadroddiadau, dilynwch y ddolen isod i gwblhau arolwg byr:

- Arolwg adroddiadau arolygu

Os hoffech roi adborth cyffredinol ar wasanaeth, ewch i'n tudalen Arolygon adborth.

Dyddiad Cyhoeddi 12/01/2024